**Nodyn Cyfarfod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yng Nghymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15fed Ionawr 2018 – swyddfa Cyngor Ar Bopeth, 4ydd Llawr, Tŷ Trafalgar, 5 Fitzalan Place, Caerdydd CF24 0ED**

**Yn bresennol:**

Bob Chapman, Cadeirydd y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol (BC)
Dr Sumina Azan, Iechyd Cyhoeddus Cymru (SA)
Fran Targett, Cyngor ar Bopeth Cymru (FT)
Salli Edwards, Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint (SE)
Kay Powell, Cymdeithas y Gyfraith (KP)
Lee Phillips, Y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (LP)
Andrew Jacobs, Yr Uned Cynhwysiant Digidol ac Ariannol, Llywodraeth Cymru (AJ)
Paul Neave, Pennaeth Gwasanaethau Cynghori, Llywodraeth Cymru (PN)

## Eitem 1 – Croeso ac ymddiheuriadau

1.1 Croesawodd BC bawb i 12fed cyfarfod y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol yng Nghymru.

1.2 Nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:
Lisa Hayward, CLILC:
JJ Costello, Shelter Cymru
Stephanie Barry, Yr Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

## Eitem 2 – Adroddiad y Cadeirydd

2.1 Dosbarthodd BC ei adroddiad diweddaru i'r aelodau cyn y cyfarfod, i dynnu sylw at ei waith diweddar.

2.2 Dywedodd BC ei fod yn aros am ddyddiad ei gyfarfod gyda'r Gweinidog ar gyfer Tai ac Adfywio. Dywedodd FT ei bod hi wedi cael cyfarfod gyda'r Gweinidog yn canolbwyntio ar weithredu UC a phan drafodwyd y gwasanaethau cynghori, roedd y Gweinidog yn gadarnhaol iawn. Dywedodd PN bod y Gweinidog wir yn gadarnhaol am y rôl bwysig sy'n cael ei chyflawni gan wasanaethau cynghori ledled Cymru i helpu pobl i wella eu bywydau.

## Eitem 3 – Nodiadau'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Hydref 2017

3.1 Derbyniwyd y nodiadau o'r cyfarfod uchod fel rhai manwl gywir.

**Camau Gweithredu:**

i) SB/PN i barhau i weithio gyda DEWIS i gynyddu nifer y sefydliadau sydd wedi cofrestru ar y safle. Hefyd, ailddosbarthu gwybodaeth, a e-bostiwyd yn flaenorol i Randdeiliaid y Rhwydwaith, yn eu hannog i gofrestru ar y safle.

ii) SB/PN i ystyried sut i ddiweddaru tudalennau'r Rhwydwaith ar wefan Llywodraeth Cymru ac adrodd yn ôl i'r Rhwydwaith.

**<u>Eitem 4 – Diweddariad gan Lywodraeth Cymru</u>**

4.1 Siaradodd AJ a PN drwy'r adroddiad a ddosbarthwyd i'r aelodau cyn y cyfarfod. Gofynnodd PN a oedd yr adroddiad diweddaru chwarterol yn ddefnyddiol a chytunwyd ei fod ac y dylid ei ddosbarthu i'r Fforwm Cynghorwyr Annibynnol. Awgrymodd PN y gallai gael ei ddosbarthu hefyd gan LH o amgylch y sector LA. Gofynnodd BC am i'r tudalennau neu'r paragraffau gael eu rhifo fel ei bod yn haws cyfeirio atynt.

4.2 Materion yn codi o'r adroddiad.

a) Y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau - Nododd AJ y byddai Llywodraeth y DU yn sefydlu 'grŵp pontio' o gynrychiolwyr o HMT, DWP, FCA, MAS a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Nod y grŵp yw sicrhau pontio llyfn pan drosglwyddir y cyfrifoldeb am wasanaethau cynghori ar ddyledion i'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Dywedodd KP bod Fforwm y Darparwyr Cynghori Annibynnol (IAPF) wedi holi a fyddai modd i LlC ddefnyddio rhywfaint o'r cyllid datganoledig i sicrhau bod digon o adnoddau yn eu lle i staff cynghori. Nododd AJ bod potensial ar gyfer hyn ac y bydd pob opsiwn yn cael ei drafod pan gaiff y cyllid ei ddatganoli.

b) Polisi Cyllid yn y Dyfodol – Esboniodd PN benderfyniad LlC i symleiddio ei ffrydiau cyllido presennol i un gronfa ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori ledled Cymru a lleol i'w comisiynu o 2019 ymlaen. Bu i FT 'ddatgan buddiant' yn yr eitem hon gan fod ei sefydliad yn derbyn cyllid gan LlC. Rhoddodd KP adborth o IAPF ar benderfyniad LlC, oedd yn cynnwys cwestiynu gallu LlC i wneud penderfyniadau effeithiol am ei chyllid yn y dyfodol ar gyfer gwasanaethau cynghori o gofio am yr oedi blaenorol. Roedd IAPF yn teimlo y gellid bod wedi trafod rhagor o opsiynau. Roedd PN yn derbyn y farn hon ac yn nodi ei fod wedi mynychu IAPF ym mis Rhagfyr 2017 ac wedi gwrando ar bryderon y darparwyr. Fodd bynnag, roedd rhaid iddo wneud penderfyniad yn seiliedig ar yr amgylchiadau yn haf 2017 ac roedd penderfyniad Llywodraeth y DU i ddatganoli cyfran o'r ardoll ariannol i Gymru'n ffactor mawr yn yr oedi gyda chomisiynu gwasanaethau. Cyflwynodd BC gefndir hanesyddol yr oedi blaenorol gyda LlC yn comisiynu gwasanaethau cynghori a dywedodd bod datganoli'r cyllid ardoll wedi arwain at oedi pellach na ellid ei osgoi gyda chomisiynu. Nododd AJ bod potensial yn ystod y 18 mis sydd i ddod i gyllid ychwanegol gael ei ddarparu i wasanaethau cynghori arbenigol llai, lle mae tystiolaeth o angen. Gallai hyn gynnwys profi modelau cyflawni newydd. Pwysleisiodd KP ei bod yn bwysig i feini prawf cymhwysedd unrhyw gyfleoedd cyllido fod ar gael. Dywedodd PN y byddai'n parhau i weithio gydag IAPF.

c) IAQF – Dywedodd PN bod y cyfarfod sefydlu contract wedi cael ei gynnal gydag MBARC yr wythnos flaenorol a bod manylion llinell

amser y Prosiect yn cael eu llunio'n derfynol yn awr. Mae disgwyl i'r gweithdy ar gyfer Perchnogion Safonol gael ei gynnal ym mis Ebrill 2018, lle byddant yn cael eu hannog i ddechrau ar y broses o gael achredu eu safonau unigol i'r IAQF. Dywedodd PN bod Perchennog Safonol wedi cwblhau ei gais am achrediad IAQF yn flaenorol ac y bydd yn gweithio gyda'r Perchennog Safonol ac MBARC gyda datblygu'r asesiad o'r cais hwn.

**Eitem 5 – Cynllun Seibiant Dyledion – Lle i Anadlu**

5.1 Adroddodd AJ ar y diwygiad i'r Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau a fydd yn gorfodi Llywodraeth y DU i ofyn am gyngor gan y Corff Cyfarwyddyd Cyllid Sengl ar sefydlu Cynllun Seibiant Dyledion. Nid yw'r diwygiad yn golygu'n awtomatig y byddai'n rhaid i Gymru ymuno â'r cynllun fel y cynigiwyd gan Lywodraeth y DU, ond mae'n rhoi hawl i optio i mewn i Gymru.

5.2 Nododd FT y byddai'n rhaid i'r cynllun, er mwyn bod ar ei fwyaf effeithiol, gael mwy na 6 wythnos o le i anadlu, cynnwys pob dyled, bod yn gysylltiedig â'r person sy'n gweithio â gwasanaethau mynediad am ddim, a byddai'n rhaid i'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori ar ddyledion gael ei gynyddu i fodloni galw cynyddol. Dywedodd PN bod ymateb LIC i'r cais am dystiolaeth yn gymharol debyg.

5.3 Nododd KP bod angen mwy o wybodaeth am fframwaith cyfreithiol y cynllun ac i ba raddau oedd gan CCC bwerau i weithredu gwahanol agweddau ar unrhyw gynllun o gymharu â chynllun Llywodraeth y DU. Cadarnhaodd AJ bod cyngor cyfreithiol wedi'i dderbyn wrth i'r Bil gael ei basio, ond byddai'n gwirio eto sut gallai darpariaethau'r Bil a'r pwerau presennol alluogi LIC/CCC i ddylanwadu ar y cynllun a mabwysiadu unrhyw newidiadau.

**Eitem 6 – Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

6.1 – Cyflwynodd BC drosolwg o'r Comisiwn a nododd ei fod ef a PN wedi cyfarfod yn ddiweddar ag Andrew Felton i drafod sut gallai'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol weithio gyda'r Comisiwn ar Fynediad i Gyfiawnder Sifil. Roedd Andrew Felton wedi gofyn i'r Rhwydwaith ddarparu tystiolaeth gychwynnol erbyn 19/01/2018 a byddai'n ei chyflwyno i'r Comisiwn cyn eu cyfarfod nesaf.

6.2 Awgrymodd BC y dylai'r aelodau ddarparu unrhyw dystiolaeth sydd ganddynt. Cytunodd FT i anfon rhestr o dystiolaeth briodol a nododd KP bod Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor LIC wedi'i ddatblygu ar sail tystiolaeth ac y byddai Andrew Felton yn gyfarwydd â'r dystiolaeth hanesyddol am fynediad i gyfiawnder sifil.

**Cam Gweithredu** – BC a PN i ddrafftio ymateb gan y Rhwydwaith.

**Eitem 7 – Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor**

7.1 Nododd BC y bydd 2il adolygiad blynyddol y Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor (IAAP) yn cael ei gynnal ym mis Mai 2018 a bod rhaid i Grŵp Craidd y Rhwydwaith ystyried sut mae cyflwyno'r adolygiad hwn, yn enwedig gan mai Gweinidog newydd fydd yn derbyn y diweddariad. Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol diweddaru gweledigaeth IAAP drwy edrych eto ar y Strategaeth Gynghori wreiddiol (ni chafodd ei chyhoeddi erioed) a nodi'r elfennau allweddol oedd wedi'u heithrio o'r IAAP a'r wybodaeth newydd sydd wedi dod i'r golwg ers i'r cynllun gael ei ddrafftio. Nododd LP ei bod yn bwysig, gan fod Gweinidog newydd wedi'i benodi, eu bod yn sylweddoli mai eu gwaddol hwy yw gweledigaeth yr IAAP wedi'i diweddaru. Nododd SE bryderon am lefel gwasanaethau cynghori ALl ledled Cymru ac unrhyw effaith gaiff y ddarpariaeth ar gyflawni'r camau gweithredu yn yr IAAP. Trafodwyd a oedd yn bosib i LH gael data gan ALlau ar eu darpariaeth o wasanaethau cynghori.

**Camau Gweithredu**

a) BC a PN i ddatblygu'r adnoddau i'w defnyddio yng nghyfarfod Grŵp Estynedig y Rhwydwaith i ddiweddaru gweledigaeth IAAP ac i gynnal adolygiad o'r IAAP
b) LH i edrych ar y potensial ar gyfer ymarfer casglu data gyda'r ALl am eu darpariaeth fewnol o wasanaethau cynghori.

**<u>Eitem 8 – Diweddariad y Gweithgorau</u>**

i) Integreiddio Atal a Datrys Argyfwng - Cyfeiriodd PN at y papur oedd wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod a nododd y cynnydd oedd yn cael ei wneud gydag adnabod sut gellid treialu model cyflawni newydd.

ii) Dadansoddi Anghenion – Crynhodd AJ y cyfarfod Dadansoddi Anghenion ar 11 Rhag. Cytunwyd mai pwrpas y grŵp oedd cyfrannu at sut orau i wario cyllid gwasanaethau cynghori pan ddown i'r rownd nesaf, gan gynnwys defnydd mwy strategol ac integredig o adnoddau sy'n defnyddio'r ymchwil Modelu Cymdeithasol (dadansoddi anghenion) a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, a hefyd unrhyw ymchwil perthnasol arall. Trafodwyd aelodaeth y Grŵp a chytunwyd y dylai hwn fod yn grŵp cyllidwyr ac nad oedd yn briodol i ddarparwyr o ystyried y gwrthdaro buddiannau posib. Cytunwyd y dylai'r Loteri Fawr, Adran Dai a rhywun yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol fod yn aelodau o'r grŵp. Awgrymwyd rhywun o Gyngor Abertawe, sy'n gwneud gwaith da ar gynhwysiant ariannol yn fwy cyffredinol ac yn profi ehangu UC gwasanaeth llawn. Gallai gynrychioli'r awdurdodau lleol yn hytrach na chynrychiolydd o CLlLC, a fyddai heb yr wybodaeth sylfaen ofynnol o bosib. Roedd y pwyntiau eraill yn cynnwys:

- Angen siarad â Fforwm Cyllidwyr Cymru ar adeg briodol.
- Mae'r gwaith mapio ar Dewis yn rhan allweddol o'r gwaith hwn.
- Beth yw ystyr 'rhanbarthol' a 'lleol' yn y cyd-destun hwn, ac a ddylid cael gofyniad pendant ar gyfer agosrwydd at wasanaethau cyffredinol. Byddai hyn yn cynnwys yr angen am edrych ar y ddarpariaeth o drafnidiaeth gyhoeddus a thrafodaeth ar beth yw ystyr 'mynediad da'.

- Cynigiodd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol (MAS) adnoddau priodol i gynorthwyo gyda gwaith y grŵp, gan gynnwys dysgu oddi wrth y gwaith comisiynu sy'n cael ei wneud yn Llundain ac yng Ngogledd Orllewin Lloegr.
- Yr angen am hybu gwaith ffafrio cyfrwng. Roedd ymarfer desg yn cael ei gynnal gan ymchwilydd cymdeithasol LlC yn defnyddio ymchwil presennol gan MAS ac eraill. Byddai Sian yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf o'r grŵp Dadansoddi Anghenion sy'n debygol o gael ei gynnal ddiwedd mis Chwefror.

**Cam Gweithredu** – SB a PN i drefnu cyfarfodydd yn y dyfodol o'r ddau Weithgor.

**<u>Eitem 9 - Cloi'r cyfarfod a dyddiadau'r cyfarfodydd yn y dyfodol</u>**

9.1 Bydd cyfarfod nesaf y grŵp craidd ac estynedig yn cael ei gynnal ar 26$^{ain}$ Ebrill 2018.